



**Cyfoeth
Naturiol
Cymru**
**Natural
Resources
Wales**

Cyngor ynghylch Gwaith Cynllunio Datblygu: Ein Datganiad Gwasanaeth ar gyfer Cyflawni

**Ein dull o gefnogi gwaith cynllunio
datblygu yng
Nghymru**

Diben

Mae'r datganiad gwasanaeth hwn yn amlinellu prif nodweddion ein hymwneud â gwaith cynllunio datblygu. Mae'n egluro sut y dylem weithio gyda phartneriaid ar lefel strategol (wrth baratoi cynlluniau) ac mewn ymgynghoriadau sy'n ymwneud â chynigion datblygu unigol. Mae'n crynhoi'r hyn y gall cyrff rheoleiddio, datblygwyr a budd-ddeiliaid eraill ei ddisgwyl gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hefyd yn egluro'r hyn yr ydym yn annog ein cwsmeriaid i'w wneud er mwyn gallu cael cyngor gennym yn ddi-oed.

Gellid dod o hyd i fwy o wybodaeth a chanllawiau ar reoliadau ar gyfer rheolaeth adnoddau naturiol ar ein gwefan.

Cynnwys

Trosolwg	3
Cynlluniau datblygu	4
Prosiectau datblygu.....	4
Ymwneud yn gynnar	5
Dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg	6
Dull gweithredu sy'n seiliedig ar atebion	6
Cyngor clir	6
Bod yn dryloyw ac yn atebol	7
Gweithio ar draws ffiniau.....	7
Terfynau amser ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau	7
Beth y gallwn ei gynnig	8
Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gan eraill	9
Adborth	10
.....	
.....	
.....	

Trosolwg

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i enwi'n ymgynghorai statudol mewn amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwaith cynllunio datblygu. Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod amgylchedd ac adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio mewn modd cynaliadwy. Ein prif rôl yng nghyswllt gwaith cynllunio datblygu yw darparu cyngor ynghylch effaith bosibl cynigion datblygu a pholisïau cynllunio ar adnoddau naturiol ac amgylchedd Cymru. Ein nod yw sicrhau bod ein cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth a'i fod yn glir, yn ddiamwys ac yn gyson er mwyn cynorthwyo cyrff sy'n gwneud penderfyniadau i gyflawni eu dyletswyddau statudol, a helpu datblygwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch lleoliad, trefn a dyluniad cynigion datblygu.

Ein prif rôl yw darparu cyngor ynghylch sut y dylai polisïau cynllunio a chynigion datblygu warchod a gwella'r amgylchedd, a sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. Mae ein rôl yn cynnwys cynllunio'n strategol ac ymateb i ymgynghoriadau ynghylch cynigion datblygu unigol.

Mae ein hymwneud ar lefel strategol yn cynnwys darparu cyngor i'r sawl sy'n paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, cynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol a chynlluniau sector sy'n berthnasol i gynllunio. Rydym yn rhoi cyngor hefyd i'r sawl sy'n cynnal Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd yng nghyswllt cynlluniau.

Ar lefel datblygiadau unigol, mae ein rôl fel ymgynghorai statudol yn gysylltiedig â maint ac effaith y datblygiad, yr angen am Asesiad o Effaith Amgylcheddol, neu leoliad y datblygiad. Mae'r elfen olaf yn cynnwys datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir nodweddion treftadaeth naturiol o bwys cydnabyddedig neu ddatblygiadau sy'n debygol o effeithio ar ardaloedd o'r fath (mae'r ardaloedd hynny'n cynnwys safleoedd Natura 2000, SoDdGA, Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol), datblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, a datblygiadau y gallent effeithio ar ardal o goedwig neu ar yr amgylchedd dŵr. Byddem hefyd yn awyddus i fod yn rhan o ymgynghoriad lle byddai angen trwydded amgylcheddol ar gynnig neu lle mae cynnig yn ymwneud â gollwng sbwriel neu wastraff.

Yn unol â pholisi cynllunio Cymru rydym yn cefnogi system gynllunio sy'n ceisio sicrhau datblygu cynaliadwy. I'r perwyl hwn, byddwn yn ymwneud yn rhagweithiol â'r system gynllunio er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli a bod y canlyniadau i dreftadaeth naturiol Cymru yn rhai cadarnhaol. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau Cymru yn y tymor hir¹. Rydym am helpu i sicrhau proses gynllunio sy'n gynt ac yn fwy effeithiol ac effeithlon trwy ganolbwyntio mwy ar y lefel strategol a mabwysiadu diwylliant sy'n seiliedig ar atebion. Er mwyn gwella ymwybyddiaeth ein partneriaid a'n cleientiaid o'n rôl a chylch gwaith, mi fyddwn yn datblygu canllawiau ar gyfer ardaloedd allweddol o fewn gwaith cynllunio datblygu. Mi fydd hyn ar gael er ein gwefan. Mi fyddwn hefyd yn gwella mynediad i'n canllawiau ac i'r data amgylcheddol sydd gennym. Byddwn hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau ynghylch ceisiadau cynllunio gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg, trwy ganolbwyntio ein hymdrechion ar gynigion datblygu sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf sylweddol ar yr amgylchedd. Os na fydd cynigion datblygu'n bodloni blaenoriaethau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer ymgynghori, byddwn yn dibynnu ar gyngor safonol neu'n gweithio gydag awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Cynlluniau datblygu

Nodwedd allweddol o ddull Cyfoeth Naturiol Cymru o ymdrin â gwaith cynllunio datblygu yw ymwneud yn rhagweithiol â pharatoi ac asesu cynlluniau a rhaglenni strategol. Trwy ymwneud yn effeithiol â'r broses o baratoi cynlluniau gallwn helpu i gyfeirio datblygiadau i'r lleoliadau mwyaf priodol. Dylai hynny leihau'r potensial ar gyfer gwrthdaro yn y dyfodol adeg cyflwyno ceisiadau unigol, ac o ganlyniad dylai wella'r graddau y mae modd cyflawni datblygiadau ar y safleoedd a ddyrennir mewn cynlluniau. Mae cynlluniau datblygu cadarn yn hanfodol i sicrhau bod y datblygiadau iawn yn digwydd yn y manau iawn.

Felly, byddwn yn helpu'r sawl sy'n paratoi cynlluniau trwy:

- **Ddarparu tystiolaeth** – rhannu'r data amgylcheddol sydd gennym, gan gynnwys gwybodaeth sy'n seiliedig ar fapiau, â'r sawl sy'n paratoi cynlluniau a nodi ffynonellau defnyddiol eraill o wybodaeth;
- **Ymwneud yn weithredol** – chwilio am gyfleoedd i sicrhau bod rheoli'r amgylchedd ac adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy'n esgor ar gynifer o fanteision ag sy'n bosibl, gan ddarparu cyngor cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ystod pob cam o'r broses o baratoi cynlluniau, a darparu cyngor ychwanegol yn ystod camau anstatudol os yw adnoddau'n caniatáu;
- **Darparu cyngor integredig** – defnyddio arbenigedd ystod eang o staff er mwyn darparu cyngor integredig ar draws ein cylch gwaith cyfan; a
- **Rhoi cyngor ynghylch Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd** – darparu cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth wrth ymateb i bob cam ymgynghori sy'n gysylltiedig ag Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd.

Prosiectau datblygu

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi datblygu cynaliadwy yng Nghymru trwy weithio gydag awdurdodau cynllunio, datblygwyr a phartneriaid eraill i leihau effeithiau niweidiol datblygiadau ar yr amgylchedd, a hybu cyfleoedd i wella'r amgylchedd naturiol er mwyn sicrhau manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd.

Byddwn yn gwneud hyn trwy:

- **Ymwneud yn gynnar** – mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd i ymwneud â datblygwyr ac awdurdodau cynllunio yn ystod y cam cyn ymgeisio er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am gyfyngiadau amgylcheddol a chyfleoedd i wella'r amgylchedd yn llywio penderfyniadau ynghylch lleoliad, trefn a dyluniad datblygiad, gan leihau oedi costus yn ystod camau diweddarach yn y broses o gyflwyno cais cynllunio;
- **Defnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg** – canolbwyntio ein hymwneud ar gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd, trwy ddefnyddio dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg er mwyn canolbwyntio ein hadnoddau ar y cynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd;
- **Mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar atebion** – nodi a hybu cyfleoedd i warchod a gwella'r amgylchedd, gan gynnwys ymgorffori nodweddion treftadaeth

naturiol yn nyluniad y datblygiad arfaethedig er mwyn sicrhau bod y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd i gyd ar eu hennill;

- **Rhoi cyngor clir** – sicrhau bod ein cyngor yn wrthrychol, yn gyson, yn seiliedig ar dystiolaeth, yn glir, yn gymesur ac yn adlewyrchu ein dyletswyddau, ein cyfrifoldebau a'n diben;
- **Bod yn dryloyw** – sicrhau ein bod yn dryloyw ac yn atebol wrth ddarparu cyngor;
- **Gweithio ar draws ffiniau** – gweithio gyda sefydliadau perthnasol eraill os yw prosiectau datblygu'n croesi ffiniau cenedlaethol;
- **Ymateb yn unol â therfynau amser** – sicrhau bod y cyngor yr ydym yn ei ddarparu yn cael ei gyflwyno'n unol â therfynau amser statudol neu derfynau amser y cytunwyd arnynt.

Mae adrannau isod yn rhoi mwy o fanylion ynghylch pob un o'r agweddau hyn ar ein dull gweithredu.

Ymwneud yn gynnar

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ddarparu tystiolaeth a chyngor yng nghyswllt cynlluniau gofodol strategol er mwyn cyfeirio datblygiadau i leoliadau priodol a lleihau gwrthdaro posibl yn y dyfodol adeg cyflwyno ceisiadau cynllunio.

Byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion hefyd ar ymwneud yn effeithiol yn ystod y cam cyn ymgeisio. Rydym yn rhoi pob anogaeth i'n staff gymryd rhan yn y drafodaeth gynnar hon, gyda'r bwriad o ddarparu cyngor defnyddiol cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch lleoliad, trefn a dyluniad cynigion datblygu sy'n flaenoriaeth. Byddwn yn chwilio am gyfleoedd hefyd i godi ymwybyddiaeth ymysg datblygwyr ac awdurdodau cynllunio o fanteision ymwneud â Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod y cam cyn ymgeisio.

Dylai ein hymwneud yn ystod y cam cyn ymgeisio sicrhau bod datblygwyr ac awdurdodau cynllunio'n ymwybodol o gyfyngiadau amgylcheddol a chyfleoedd i wella'r amgylchedd yn gynnar iawn yn y broses o gyflwyno cais cynllunio. Mae hynny'n cynnwys nodi ac egluro'r wybodaeth y mae ei hangen i gefnogi cais, a'r dulliau asesu. Byddwn hefyd yn gallu rhoi gwybod i ddatblygwyr pa wybodaeth sydd gennym ni a allai fod o gymorth iddynt.

Os yw'n ymddangos y byddai cynnig yn debygol o gael effaith ddifrifol ar yr amgylchedd, byddwn yn rhannu ein pryderon yn gynnar ac, os yn bosibl, yn awgrymu ffyrdd y gellid osgoi neu liniaru'r effeithiau niweidiol, gan gynnwys a ddylid nodi unrhyw amodau mewn caniatâd cynllunio neu mewn gofynion sy'n rhan o Brosiect Seilwaith Cenedlaethol ei Arwyddocâd. Os oes posibilrwydd y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthwynebu datblygiad arfaethedig, byddwn yn ceisio datgan hynny cyn gynted ag sy'n bosibl.

Byddwn yn sicrhau eglurder ynghylch rolau Cyfoeth Naturiol Cymru, ac ni fyddwn yn darparu cyngor ynghylch materion sydd y tu hwnt i'n cylch gwaith. Fodd bynnag, os oes cyswllt clir ac uniongyrchol rhwng mater sydd y tu allan i'n cylch gwaith ac effaith sy'n rhan o'n cylch gwaith, gallwn dynnu sylw at y broblem bosibl.

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu rhoi'r un lefel o gyngor manwl i bob cynllun datblygu a phob cynnig. Felly, rydym yn mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg², gan ganolbwyntio ar gynigion datblygu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar nodweddion amgylcheddol sy'n rhan o'n cylch gwaith. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn dibynnu ar ddyletswyddau statudol cyrff rheoleiddio eraill i ystyried yr effaith bosibl ar nodweddion sy'n rhan o'u cylch gwaith nhw. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa geisiadau cynllunio y mae'n rhaid ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cylch yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, a byddwn yn cyhoeddi'r meini prawf diweddaraf ynghylch datblygu ar ein gwefan maes o law.

Dull gweithredu sy'n seiliedig ar atebion

Yn unol â'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r broses o ddiwygio'r drefn gynllunio, rydym yn annog ein staff i chwilio am ffyrdd o gefnogi polisi cynllunio Cymru i sicrhau datblygu cynaliadwy. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau. Wrth ddarparu cyngor ynghylch cynigion datblygu unigol byddwn, lle bo hynny'n bosibl, yn gweithio gyda'r ymgeisydd i ddod o hyd i atebion sy'n lleihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd ac yn chwilio am gyfleoedd i wella asedau amgylcheddol er mwyn sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Rydym yn cydnabod na fydd efallai'n bosibl cael sicrwydd llwyr ynghylch mater, a byddwn yn ceisio nodi sefyllfaoedd lle mae'r risgiau'n ddigon isel i allu bwrw ymlaen gyda lefelau derbyniol o ansicrwydd.

Cyngor clir

Byddwn yn ceisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol ym maes cynllunio yn gallu deall y cyngor a ddarparwn, a byddwn yn ceisio sicrhau ei fod yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus. Felly, bydd ein hymatebion i ymgynghoriadau cynllunio yn wrthrychol, yn gyson, yn ddiamwys ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Yn unol â'n cylch gwaith, byddwn yn canolbwyntio ar ddisgrifio effaith bosibl cynnig datblygu ar yr amgylchedd. Lle bo hynny'n bosibl, byddwn yn darparu cyngor a fyddai'n caniatáu i'r cynnig symud yn ei flaen. Fodd bynnag, os ydym yn debygol o wrthwynebu datblygiad arfaethedig, byddwn yn egluro'r rhesymau dros wneud hynny cyn gynted â phosib.

Ar hyn o bryd, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bedwar categori ymateb, sef:

- **Dim gwrthwynebiad** (Ile mae unrhyw bryderon a oedd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael eu lliniaru neu wedi cael sylw priodol mewn amod cynllunio, rhwymedigaeth gynllunio neu fesur arall priodol); **Gwrthwynebiad oni bai / hyd nes** (Ile byddwn yn gwrthwynebu cynnig oni bai ei fod yn cael ei addasu i oresgyn ein gwrthwynebiadau neu hyd nes y bydd rhywbeth penodol wedi digwydd);
- **Gwrthwynebiad mewn egwyddor – argymell gwrthod** (Ile byddai cynnig yn cael effaith annerbyniol ar nodweddion sy'n rhan o'n cylch gwaith a lle na allwn weld sut y gellid addasu'r cynllun i oresgyn y perygl o effaith niweidiol); ac

- **Ymateb dros dro cyffredinol** (lle'r ydym yn darparu cyngor penodol i'r safle ynghylch effeithiau tebygol cynllun arfaethedig ar yr amgylchedd cyn cyflwyno ein hymateb ffurfiol terfynol).

Bod yn dryloyw ac yn atebol

Ein nod yw bod yn dryloyw ac yn atebol trwy egluro sut yr ydym wedi asesu cynigion, a chymryd cyfrifoldeb am ein cyngor. Byddwn yn rhoi cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn egluro'r rhesymau dros ein barn.

Byddwn yn parchu cyfrinachedd ymgeiswyr yn unol â thelerau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004. Mae rhagor o fanylion i'w gweld ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Gweithio ar draws ffiniau

Mae cylch gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â datblygiadau sy'n digwydd yng Nghymru gan gynnwys yr ardal forol sydd hyd at 12 milltir fôr oddi ar arfordir Cymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi cyngor hefyd ynghylch effeithiau unrhyw ddatblygiad arfaethedig y tu allan i Gymru sy'n debygol o effeithio ar nodweddion amgylcheddol yng Nghymru a'i dyfroedd.

Os yw cynllun datblygu neu ddatblygiad arfaethedig yn debygol o gael effaith drawsffiniol ar yr amgylchedd, byddwn yn gweithio gyda'n chwaer- asiantaethau, sef Natural England, y Cydbwyllgor Gwarchod Natur, y Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn bennaf.

Terfynau amser ar gyfer ymateb i ymgynghoriadau

Rydym wedi ymrwmo i helpu datblygwyr, awdurdodau cynllunio a chyrff rheoleiddio er mwyn iddynt allu symud cynigion a chynlluniau datblygu yn eu blaen cyn gynted ag sy'n bosibl ac mor effeithlon ag sy'n bosibl, gan sicrhau ar yr un pryd bod yr effeithiau posibl ar yr amgylchedd yn cael eu hystyried yn briodol.

Yng nghyswllt ymgynghoriadau ynghylch ceisiadau cynllunio dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, byddwn yn ymateb cyn pen 21 diwrnod neu o fewn y terfynau amser statudol, cyhyd â'n bod wedi cael yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen i roi ymateb gwybodus. Os bydd angen amser ychwanegol arnom, byddwn yn egluro pam ac yn nodi pryd y byddwn yn cyflwyno ein hymateb.

Dan Ddeddf Cynllunio 2008, mae'n rhaid i ddatblygwyr roi o leiaf 28 diwrnod i Cyfoeth Naturiol Cymru ymateb i ymgynghoriad adran 42, ac mae'n ofynnol i ddatblygwyr ystyried unrhyw 'ymateb perthnasol' gan Cyfoeth Naturiol Cymru (Adran 49 Deddf Cynllunio 2008).

Yng nghyswllt ymgynghoriadau cyn ymgeisio ac ymgynghoriadau anstatudol dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, byddwn yn gwneud ein gorau glas i ymateb cyn pen 21 diwrnod, cyhyd â'n bod wedi cael yr holl wybodaeth y mae arnom ei hangen i roi ymateb gwybodus. Os na allwn fodloni'r terfyn amser hwn, byddwn yn egluro pam ac yn rhoi

dyddiad pan ellir disgwyl i ni ddarparu ein hymateb. Mae'n bosibl y bydd maint y cynllun arfaethedig, neu unrhyw gymhlethdod sy'n gysylltiedig ag ef, yn effeithio ar hynny.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn codi tâl am ddarparu cyngor cynllunio anstatudol. Fodd bynnag, rydym wrthi ar hyn o bryd yn ymchwilio i'r opsiynau, y manteision a'r costau a fyddai'n gysylltiedig â chodi tâl am ddarparu cyngor cynllunio anstatudol. Bydd rhagor o wybodaeth am unrhyw ddatblygiadau ynghylch y mater hwn ar gael ar ein gwefan.

Beth y gallwn ei gynnig

Ar gyfer cynlluniau datblygu, byddwn:

- yn darparu'r wybodaeth amgylcheddol sydd gennym er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch lleoliad a ffiniau dyraniadau tir i'w datblygu, a ffiniau dynodiadau amgylcheddol, yn rhan o'n hymateb i ymgynghoriadau ffurfiol;
- yn rhoi cyngor ynghylch sut mae gweledigaeth, strategaeth, amcanion a pholisïau'r Cynllun yn gwarchod ac yn gwella'r amgylchedd, ac yn hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer hamddena mynediad, wrth ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol;
- yn cynorthwyo ac yn rhoi cyngor ynghylch cynnal Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd;
- yn rhoi cyngor yn ystod pob cam o'r broses o gynnal Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yng nghyswllt y cynllun; ac
- yn darparu cyngor ynghylch Canllawiau Cynllunio Atodol neu Friffiau Datblygu sy'n cefnogi cynlluniau datblygu lleol.

Ar gyfer cynnigion datblygu, byddwn:

- yn penodi rheolwr achos yn Cyfoeth Naturiol Cymru i fod yn bwynt cyswllt canolog;
- yn cwrdd â datblygwyr a chyrrff perthnasol eraill i drafod y cynnig datblygu'n gynnar yn y broses gynllunio (yn dibynnu ar faint y prosiect a'i effaith bosibl);
- yn rhoi cyngor ynghylch y wybodaeth y dylid ei darparu i gefnogi cais, gan gynnwys cyngor ynghylch cwmpas yr Asesiad o Effaith Amgylcheddol lle bo angen;
- yn rhoi cyngor ynghylch yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os yw'n ofynnol ar gyfer y cynnig;
- yn rhoi cyngor ynghylch yr angen am Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ac addasrwydd yr asesiad hwnnw;
- yn rhoi cyngor ynghylch yr angen am unrhyw asesiadau i sicrhau y cydymffurfir â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr;
- yn rhoi cyngor ynghylch a oes angen trwydded amgylcheddol;
- yn darparu gwybodaeth am safleoedd dynodedig a rhywogaethau a warchodir;
- yn rhoi cyngor ynghylch mesurau i leihau effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd;
- yn rhoi cyngor ar faterion yn ymwneud gyda hamdden a mynediad;
- yn rhoi cyngor ynghylch pa sefydliadau eraill y dylid ymgynghori â nhw;

- yn ymateb yn unol â therfynau amser statudol neu, os oes angen amser ychwanegol, yn egluro pam ac yn dweud pryd y caiff ein hymateb ei gwblhau;
- yn ymwneud yn weithredol ag ymgeiswyr i baratoi datganiadau ynghylch tir cyffredin cyn gynted ag sy'n bosibl; ac
- yn sicrhau bod ymgeiswyr yn cael copi o'n hymatebion ffurfiol i'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau.

Mi fyddwn yn cyhoeddi canllawiau ar Asesiadau Amgylcheddol Strategol ac Asesiadau Rheoliadau Chynefinoedd ar ein gwefan.

Beth yr ydym yn ei ddisgwyl gan eraill

Rydym am helpu datblygwyr a chynllunwyr i symud cynigion yn eu blaen cyn gynted ag sy'n bosibl ac mor effeithlon ag sy'n bosibl, gan sicrhau ar yr un pryd bod materion amgylcheddol yn cael eu hystyried yn briodol. Felly, rydym yn gofyn am ddigon o wybodaeth i'n galluogi i ddarparu cyngor ystyrlon.

Bydd y wybodaeth yr ydym yn gofyn amdani i gefnogi cais cynllunio'n gymesur, a bydd yn ofynnol er mwyn i ni a'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau allu asesu effeithiau posibl datblygiad arfaethedig ar yr amgylchedd. Bydd ymwneud â darpar ddatblygwyr yn ystod y cam cyn ymgeisio yn sicrhau bod y wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi cais yn cael ei nodi o'r dechrau. Os bydd datblygwyr yn dilyn y cyngor a ddarparwn yn ystod y cam cyn ymgeisio, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol, er enghraifft, os bydd tystiolaeth neu ganllawiau newydd yn dod i'r amlwg neu mewn achosion lle mae cynigion a ffiniau safleoedd wedi newid.

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr:

- roi terfyn amser rhesymol ar gyfer ein hymateb os ydynt yn gofyn am ein cyngor;
- bod yn glir ynghylch nodau a chwmpas cyfarfodydd y gofynnir amdanynt, gan gytuno ar agenda ymlaen llaw, darparu deunydd/papurau ysgrifenedig gan ganiatáu digon o amser i'w darllen, a galluogi'r sawl sy'n cymryd rhan i gytuno ar gofnodion/camau gweithredu'r cyfarfodydd hynny;
- ymwneud â ni yn ystod y cam cyn ymgeisio, neu wrth ddewis lleoliad datblygiad, lle bo hynny'n briodol h.y. yng nghyswllt cynigion ar gyfer datblygiadau mwy o faint a allai gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd;
- cynnal asesiadau amgylcheddol cymesur, gan gynnwys Asesiadau o Effaith Amgylcheddol lle bo hynny'n berthnasol, sy'n adlewyrchu natur a maint yr effaith, a rhoi digon o wybodaeth i ganiatáu i gyrrff awdurdodi gynnal eu hasesiad nhw o'r cynigion (gan gynnwys unrhyw Asesiadau Rheoliadau Amgylcheddol);
- cynnal arolygon addas lle bo hynny'n berthnasol, a rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith bosibl o ran y canlynol: cyrff dŵr wyneb; llygru dŵr daear; halogi tir; perygl llifogydd; a nodweddion treftadaeth naturiol (gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau, tirweddau, tirweddau hanesyddol, daeareg a mynediad) wrth ddylunio cynnig newydd, gan gyfeirio at arfer da;
- dangos sut y mae unrhyw gyngor a roddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ystyried;

- a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch terfynau amser ar gyfercyflwyno ceisiadau a Gwybodaeth Amgylcheddol Atodol.

Rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio a chyrrff rheoleiddio:

- ofyn am gyngor gennym os yw cynnig datblygu yn rhan o'n cylch gwaith yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (gweler paragraff 5.1 uchod), gan roi amserlen resymol neu statudol ar gyfer darparu ymateb;
- bod yn glir ynghylch nodau a chwmpas cyfarfod, cytuno ar agenda ymlaen llaw, darparu deunydd/papurau ysgrifenedig gan ganiatáu digon o amser i'w darllen fel y bo'n briodol, a chytuno ar gofnodion/camau gweithredu wedi hynny;
- nodi pryd y gallai'r canlynol fod yn fater perthnasol i'w ystyried: llygru dŵr daear, halogi tir, perygl llifogydd, adnoddau dŵr, llygru dŵr wyneb, defnyddio/gwaredu gwastraff, neu effeithiau ar dirwedd, mynediad, rhywogaethau a warchodir neu ddynodiadau statudol, a gofyn i ymgeiswyr gynnal arolygon addas a chynnig mesurau lliniaru digonol fel y bo'n briodol;
- gweithredu'r ddyletswydd rhoddir arnynt o dan Adran 6 o'r Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a thrwy hynny hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, hyd yma yn gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol;
- rhoi gwybod i ni am ganlyniad/penderfyniad ceisiadau lle mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflwyno ymateb i ymgynghoriad.

Adborth

Caiff y gwaith o weithredu'r datganiad lefel gwasanaeth hwn ei fonitro. Byddem yn croesawu adborth ynghylch ffyrdd y gellid gwella ein gwasanaeth.

Cyswllt: planning@naturalresourceswales.gov.uk